**BWRDD CYD LYWODRAETHU**

**29 Chwefror 2024**
**AR-LEIN**

**PRESENNOL:**

Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid SCHTh **(Cadeirydd)**
Rachel Barber, Cadeirydd, Cydbwyllgor Archwilio[RB]James Sutton, Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd [JS]
Jonathan Maddock, TIAA [JM]
Guto Edwards, Pennaeth Cyllid [GE]
Sian Jones, Cydlynydd Parhad Risg a Busnes [SWJ]
Anne Matthews, Swyddog Cyllidebau a Chyllid [AM]
Simon Williams, Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol
Suzanne Oliver, Cynorthwyydd Personol y CCA (Cofnodion)

**YMDDIHEURIADAU:**

Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau [CCA]
Stephen Hughes, Prif Swyddog Gweithredol [SH]
James Sutton, Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes [JS]
Sarah Davies, Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio
Helen Williams, Cyfrifydd Rheoli Cyllid

**381. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF 15 Tachwedd 2023**

Gwnaeth y bwrdd adolygu a chymeradwyo cywirdeb y cofnodion blaenorol.

**382. COFNOD GWEITHREDIADAU**

Gweler y cofnod gweithrediadau ar wahân am ddiweddariadau.

**383. DECHRAU ADOLYGIAD O'R LLAWLYFR LLYWODRAETHU A'I RANNAU CYFANSODDOL**

Hysbysodd KJ yr edrychir ar y Llawlyfr Llywodraethu, sy'n cynnwys y pedair dogfen isod, yn flynyddol. Hefo etholiad wedi'i drefnu ar gyfer eleni a CHTh newydd yn cael ei ddewis, mae KJ yn gofyn i'r bwrdd ddarllen trwy'r isod a hysbysu a oes angen adolygu unrhyw beth.

Pennod 1 – Cod Llywodraethu Corfforaethol 2021 (northwales-pcc.gov.uk)
Pennod 2 – Cynllun caniatâd 2022.pdf (northwales-pcc.gov.uk)

[Pennod 3 – Rheoliadau Ariannol 2022revision_0.pdf (northwales-pcc.gov.uk)]
[Gorchmynion sefydlog Cytundebau 2022.pdf (northwales-pcc.gov.uk)]

384. **TRAFOD DRAFFT CYNTAF Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Rhannodd GE y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft. Yn dilyn trafodaethau pellach ym mis Gorffennaf hefo amserlen wedi'i chytuno arni, gobeithir cymeradwyo'r cyfrifon ym mis Hydref. Mae GE yn gofyn i'r bwrdd ddarllen trwy'r cyfrifon a rhoi gwybod am unrhyw beth sydd angen ei ddiweddaru.

Dywedodd RB fod adolygiad blynyddol o'r weithdrefn lywodraethu. Holodd a oes adolygiad mewnol wedi'i drefnu, a allai o bosibl fwydo i mewn i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol?

Dywedodd SJ y cytunwyd, oherwydd bod adolygiad trylwyr wedi'i gynnal y llynedd, fod teimlad ei bod yn rhy fuan cynnal adolygiad arall mor gynnar. Awgrymwyd y byddai'n well cynnal adolygiad llai manwl yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf neu fis Awst eleni a'i adrodd i'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yng nghyfarfod mis Tachwedd o dan y cynllun gwaith ymlaen. Gofynnodd SJ am gymeradwyaeth y Bwrdd Cyd Lywodraethu i'r cynnig. Cadarnhaodd RB ei bod yn gyfforddus hefo'r cynnig ac yn derbyn mai dyma'r peth iawn i'w wneud. Cododd RB fod angen dilyn unrhyw newidiadau sylfaenol sy'n mynd y tu hwnt i'r adolygiad llywodraethu a oedd yn rhan o adborth AHEF, a allai effeithio ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a ddrafftiwyd ar gyfer mis Gorffennaf. Eglurodd SW wrth RB fod AHEF eisoes wedi dechrau eu harolwg yn yr heddlu a'i fod yn asesiad parhaus hyd at fis Gorffennaf hefo cysylltiad rheolaidd hefo swyddog cyswllt heddlu. Mae SW yn cefnogi arolwg llai manwl ym mis Ebrill hefo'r bwriad o wneud adolygiad manylach yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**385. a) ADOLYGIAD O ARGYMHELLION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**
**b) ADOLYGIAD O FATERION CYHOEDDIADAU GAN ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynodd AM yr adroddiad ar argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol a rhoddodd ddiweddariadau.

Nododd AM fod ychydig o archwiliadau wedi dod drwodd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Cyd Lywodraethu. Roedd pob un ohonynt yn sylweddol ac eithrio Uned Reoli Ardal y Dwyrain. Roeddent i gyd yn cynnwys materion yn ymwneud hefo hen Ddalwyr hen / ai law nad ydynt yn cael eu cofnodi'n gywir cyn y system newydd o gofnodi RMS. Nid oes diweddariad swyddogol wedi'i gofnodi ar y ddogfen hon gan ei bod yn dal i fod yn gynnydd gweithredol. Bydd darlun cliriach yn cael ei ddarparu unwaith y bydd yr ymarfer llawn wedi'i gwblhau.

Nodwyd fod yr adroddiad drafft asedau sefydlog wedi cael ei dderbyn a'i gwblhau gan TIAA sydd wedi dod allan fel Rhesymol. Roedd ganddo sicrwydd cyfyngedig o'r blaen, felly mae hyn yn welliant sylweddol. Bydd hyn yn effeithio ar yr argymhellion diogelwch seiber. Cynnydd arall ydy eiddo, sydd wedi cael cynnydd rhesymol o gyfyngedig, sy'n llawer gwell. Bydd eiddo'n parhau fel archwiliad blynyddol.

Dywedodd AM fod Rheoli Absenoldeb AD wedi'i ohirio tan 24/25 ac nad oes gan AD Bennaeth AD mwyach. Mae hyn wedi effeithio ar yr archwiliad. Mae ymgynghorydd dros dro wedi ei gyflogi a fydd yn edrych yr argymhellion erbyn y dyddiad diwygiedig sef 30 Ebrill.

Hysbysodd AM fod yr archwiliad Iechyd a Diogelwch dilynol wedi'i oedi ychydig oherwydd salwch. Rhoddir diweddariad yn y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Cyd Lywodraethu.

Ar ddiwedd adroddiad AM, rhoddodd SW enwau'r Penaethiaid newydd hynny o fewn DPS

Julie Brearley – Pennaeth DPS
Tracy Hawthorne – Ymgynghorydd AD

**386. DIWEDDARIAD SICRWYDD (DRWY EITHRIAD)**
**Cynnwys manylion unrhyw newidiadau i'r Strwythur Llywodraethu – Comisiynu / Datgomisiynu cyfarfodydd**

**DIWEDDARIAD AR GYNNYDD ADOLYGIAD LLYWODRAETHU**

Cylchredwyd adroddiad Diweddariad Sicrwydd hefo'r agenda a chymerwyd ei fod wedi'i ddarllen.

Cadarnhaodd SJ ei bod bellach wedi ymuno hefo'r Gweithgor Polisi Cenedlaethol, sy'n gyfarfod deufis sy'n rhwydweithio hefo'r arweinwyr polisi eraill. Mae'r grŵp hwn yn edrych ar arferion gorau a gwersi a ddysgwyd gan heddluoedd eraill. Mae'n gyfle i wneud rhywfaint o graffu gorwel ar gyfer newidiadau cenedlaethol posibl a allai effeithio ar ein polisïau. Ar ben hyn, mae Heddlu Dyfed Powys, sy'n edrych ar sefydlu Grŵp Heddlu Cymru Gyfan, wedi gofyn i SJ rannu gwybodaeth a rhai arferion gorau o ran risg. Fel y crybwyllwyd o'r blaen, mae cais blaenorol ar gyfer rheolwr risg Heddlu De Cymru i gyflawni adolygiad cymheiriaid o'n proses risg wedi cael ei oedi oherwydd absenoldeb. Bu rhywfaint o symud yn genedlaethol o Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion Heddlu lle mae Neil Ackers yn mynychu ar ran yr heddlu. Cafwyd cynnig bod y rheolwyr risg yn cynnal adolygiad peilot gan gymheiriaid o Heddlu Gogledd Cymru y mae angen i aelodau CCPSH gytuno arno. Hysbysodd SJ fod yna ychydig o Gylch Gorchwyl ar ôl. Mae hyn oherwydd absenoldebau staff, ond mae'r rhain bellach mewn llaw. Mae yna ychydig o welliannau i strwythur llywodraethu'r heddlu sydd wedi'i osod ar yr agenda er gwybodaeth.

Holodd RB a fydd dogfen gwmpasu yn cael ei rhannu unwaith y bydd y cynllun peilot ynghylch risg wedi'i sefydlu. Hysbysodd SJ y byddai'n cysylltu hefo Neil Ackers ac yn cadarnhau hynny.

Gweithrediad: Sian Jones i gysylltu hefo Neil Ackers a chadarnhau a fydd dogfen gwmpasu yn cael ei rhannu unwaith y bydd y cynllun peilot ynghylch risg wedi'i sefydlu. Bydd Siân wedyn yn rhoi diweddariad i Rachel Barber.

**387. ADOLYGIAD O ARGYMHELLION ODDI WRTH Y CYDBWYLLGOR ARCHWILIO**

Cyflwynodd GE y gweithrediadau agored o ran llywodraethu o gyfarfodydd y CA er mwyn i aelodau'r Bwrdd hwn eu gweld. Rhoddodd ddiweddariadau lle roedd yn briodol.

**388. ADOLYGIAD BLYNYDDOL COD RHEOLI ARIANNOL**

Cylchredwyd yr adroddiad hefo'r agenda. Nid oedd yn glir a oedd yr adroddiad wedi'i ddarllen. Fodd bynnag, mae'r adroddiad wedi'i osod yn y ddogfen hon er gwybodaeth.




Hysbysodd GE fod y cod Rheolaeth Ariannol wedi'i gyflwyno er mwyn sicrhau bod safonau cywir yn cael eu dilyn. Aeth GE drwy'r adroddiad yn gryno gan dynnu sylw at yr ychwanegiadau a'r diwygiadau i'r adroddiad eleni.

Mynegodd RB ei phryderon mewn perthynas â'r dystiolaeth a gafwyd i gefnogi pob pwynt. Awgrymodd gryfhau pob pwynt. Byddai'n fuddiol gwneud sylwadau wrth ymyl pob pwynt tystiolaeth ynghylch a ydy'r rhain yn cael eu dilysu gan elfennau fel archwilio mewnol ac allanol, yn disgwyl arweiniad, neu'n disgwyl am adolygiad.

**389. DIWEDDARIAD PARTH GWERTHUSIAD Y CA**

Roedd y CCA yn methu mynychu'r cyfarfod. Fodd bynnag, maent wedi cyfarfod hefo'r rhanddeiliaid a byddant yn paratoi adroddiad**.**

**Gweithrediad: Y CCA i baratoi adroddiad i'r CA i'w gylchredeg i aelodau'r Bwrdd Cyd Lywodraethu.**

**390. ADOLYGIAD CYNLLUN GWAITH YMLAEN**

Gofynnodd SJ am symud yr adolygiad Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd Llywodraethu i gyfarfod mis Hydref. Copi diwygiedig ynghlwm wrth y ddogfen.




**391. UNRHYW FATER ARALL**

Nid chodwyd mater arall.

**392. TREFNIADAU ARCHWILIO MEWNOL**

Mae SJ yn cadarnhau y bu datblygiadau diweddar o ran caffael archwiliad mewnol. Mae cytundeb cyffredinol rhwng yr 8 corfforaeth i ymestyn y cytundeb presennol hefo TIAA tan ddiwedd mis Medi er mwyn galluogi cynnal proses briodol. Mae awgrym gan fod y papurau wedi treulio pum wythnos yn hirach na'r disgwyl yn Adran Gyfreithiol De Cymru y dylid rhoi estyniad am chwe mis arall hyd at ddiwedd mis Mawrth. Mynegodd SJ bryderon pe cytunwyd ar amserlen mor hir â hynny, y byddai risg fach y gallai darparwyr archwilio mewnol eraill herio ymestyn TIAA dro ar ôl tro yn lle mynd allan i dendr. Felly mae'r cynllun yn ôl ar y trywydd iawn er mwyn cael sefydlu rhywbeth erbyn 1 Hydref. Y cynllun ar gyfer eleni ydy cyflawni cynllun archwilio arferol, gan ddechrau hefo TIAA, sydd wedi cytuno parhau gweithio hefo ni ar lafar. Gan ddibynnu ar y canlyniad ar 1 Hydref, bydd TIAA wedyn yn cael trosglwyddiad trefnus i'r darparwr sicrwydd newydd er mwyn osgoi rhoi straen ar y ddau

chwarter olaf. Soniodd SJ fod fetio ar gyfer y darparwyr newydd wedi cael ei ychwanegu i'r amserlen.

Hysbysodd SJ fod dogfen estynedig ddrafft wedi'i chwblhau sydd ar hyn o bryd yn y broses o gael ei hadolygu gan Stephen Hughes a'r CCA. Bydd wedyn yn cael ei hanfon at Dde Cymru ddechrau'r wythnos nesaf.

Holodd RB a ydy Archwilio Mewnol wedi'i roi ar y gofrestr risg. Nid oedd KJ yn meddwl hynny a bydd yn uwchgyfeirio hyn.

**DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF:**

Dydd Mawrth 18 Mehefin 2024
Dydd Mercher 4 Medi 2024
Dydd Mawrth 29 Hydref 2024